

# CYFLAWNI NEWID GYDA'N GILYDD

## Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023

### Fersiwn Hawdd ei Darllen

# Mynegai


| | |
|---|---|
| **Tudalen 3** | **Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru** |
| **Tudalen 5** | **Asesiad y Boblogaeth** |
| **Tudalen 7** | **Pethau i ganolbwyntio arnyn nhw** |
| **Tudalen 8** | **Y Cynllun Ardal** |
| **Tudalen 9** | **Cynlluniau Eraill** |
| **Tudalen 11** | **Y Prif Syniadau** |
| **Tudalen 13** | **Blaenoriaethau** |
| **Tudalen 20** | **Beth sy'n mynd i ddigwydd** |
| **Tudalen 21** | **Rhai o'r syniadau** |
| **Tudalen 23** | **I gael gwybod mwy** |

## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Grŵp o bobl sydd â'r gwaith o wneud gofal a chymorth yn well yng Ngorllewin Cymru yw Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.



Gorllewin Cymru yw ardal Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.




Mae'r bobl yn dod o gynghorau, Bwrdd Iechyd y Brifysgol, a grwpiau eraill.

Mae gofalwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn eistedd ar y Bartneriaeth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gwirio gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.


## Asesiad y Boblogaeth

Yn mis Mawrth 2017, gwnaeth y Bartneriaeth Asesiad o'r Boblogaeth.

Mae hyn yn golygu edrych ar ba ofal a chymorth sydd ei angen ar bobl.

A'r hyn y maen nhw'n ei gael nawr.

Roedd hwn yn dangos lle mae'r bylchau a lle mae angen i bethau fod yn well yn y dyfodol.



Edrychodd y Bartneriaeth ar anghenion:

- **Plant a Phobl Ifanc**
- Pobl ag **Anableddau Corfforol**
- Pobl ag **Anabledd Dysgu** a phobl ag **Awtistiaeth**
- Pobl â **chyflwr** iechyd meddwl
- **Pobl hŷn**
- Pobl â **nam ar y synhwyrau** (pobl nad ydyn nhw'n gallu gweld na chlywed)

- Pobl sy'n **Camddefnyddio Sylweddau** (pobl sy'n defnyddio cyffuriau neu yfed ac mae'n eu brifo nhw)
- Menywod a phobl sy'n dioddef **Trais** yn y cartref. Edrychon nhw hefyd ar **anghenion iechyd** yn y gymuned.

## Pethau i Ganolbwyntio Arnyn Nhw




Arweiniodd hyn at 8 peth mawr i ganolbwyntio arnyn nhw:

- **Urddas** pobl a'u **diogelu** rhag esgeulustod a cham-drin. Mae hyn yn golygu cadw pobl yn ddiogel.
- Rhoi gwasanaethau yn **Gymraeg** i bawb sydd eu hangen nhw
- **Atal** – helpu pobl i helpu eu hunain
- **Mae gofalwyr** yn bwysig ac mae angen cymorth arnyn nhw
- **Symud** rhwng gwasanaethau plant ac oedolion
- Dylai pobl **gymryd rhan** wrth gynllunio gwasanaethau
- Rhoi cynnig ar syniadau newydd
- Mae angen i bartneriaid **roi eu harian at ei gilydd i helpu i wneud gwell gwasanaethau**.

## Y Cynllun Ardal

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dweud bod rhaid cael Cynllun Ardal.

Rhaid i'r Bartneriaeth wneud Cynllun Ardal bob pum mlynedd.

Mae'n nodi beth mae angen i'r partneriaid ei wneud.

Gall pobl weld os ydyn nhw wedi gwneud y pethau hyn.

Gall pobl ddweud wrthyn nhw os nad ydyn nhw'n gwneud y pethau hyn.



## Cynlluniau Eraill

Hwn yw'r Cynllun Ardal cyntaf ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'r Bartneriaeth wedi defnyddio llawer o **Gynlluniau, Deddfau a Strategaethau** eraill i wneud y cynllun hwn.

Strategaeth yw cynllun gweithredu.

Rhai o'r rhain yw:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
- Ffyniant i Bawb



Ni all y Bartneriaeth wneud hyn i gyd ar ei phen ei hun.

Mae'n golygu bod yr holl Bartneriaid yn gwneud y gwaith.

Mae angen i'r Cynllun gyd-fynd â **gwaith arall y mae'r Bwrdd Iechyd a'r cynghorau lleol yn ei wneud**.

Fel:

- Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd
- Strategaethau Anableddau Dysgu Lleol
- Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol
- Law yn llaw at Strategaeth Iechyd Meddwl

A llawer mwy!

Mae angen i bob un ohonynt weithio gyda'i gilydd, fel bod pobl yn cael gwell gwasanaethau i'w helpu i **fyw'n dda**.



## Y Prif Syniadau

Mae'n rhaid i bartneriaid:

- **Weithio gyda'i gilydd** mwy
- Gwneud mwy i **atal** problemau rhag digwydd
- **Newid** pethau'n fwy cyflym
- Gwneud mwy o bethau yn y **gymuned**



Mae'r Cynllun yn ymwneud â

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw
- Ac nid oes rhaid iddyn nhw boeni o ba wasanaeth y mae'n dod
- A'i gael o blentyndod yr holl ffordd i henaint

**Mae'n golygu gweithio gyda'i gilydd.**

**Mae'r Cynllun am i bobl:**

**Aros yn iach ac yn annibynnol o fewn y gymuned.**

Er enghraifft, dylai asiantaethau:

Rhoi gwybodaeth y gall pobl ei deall.

Helpu pobl i fwyta'n iach, gwneud ymarfer corff, a gwneud ffrindiau.

**Cadw i fod yn annibynnol.**

Er enghraifft, dylai asiantaethau:

Rhoi help ychwanegol i bobl i adael yr ysbyty.

Gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i gefnogi plant.

Rhoi help ychwanegol fel y gall pobl aros yn eu cartrefi.

**Cael gofal a chymorth tymor hir os bydd ei angen arnyn nhw.** Er enghraifft, dylai asiantaethau ddarparu:

Iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sydd ei angen

Gwasanaethau sy'n helpu pobl i fod yn annibynnol

**Blaenoriaethau**

Nid oes modd gwneud popeth ar unwaith.

Felly, mae gan y Bartneriaeth flaenoriaethau.

Blaenoriaeth yw rhywbeth sydd fwyaf pwysig.

Bydd hyn yn helpu i wneud i'r cynlluniau ddigwydd.



**Mae staff** yn flaenoriaeth

Hyfforddi staff yn dda
A chael y staff cywir.
A'u cadw.



**Mae gweithio gyda'n gilydd** yn flaenoriaeth.

Prynu gwasanaethau gyda'n gilydd
A rhoi arian at ei gilydd
I wneud i bethau ddigwydd



**Mae gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl** yn flaenoriaeth.

Helpu pobl i gael gwasanaethau yn eu cymuned.


A chymorth arbenigol pan fydd ei angen arnyn nhw.



**Mae gwell Gwasanaethau Anableddau Dysgu** yn flaenoriaeth.

Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu dweud.

A chael dewis da o bethau yn eu bywydau.



**Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn flaenoriaeth.

Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod pobl yn cael gwybodaeth dda am wasanaethau.

Mewn ffordd y maen nhw'n gallu ei deall.



**Mae Gofalwyr** yn flaenoriaeth.

Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael eu cefnogi.



## <u>**Beth sy'n mynd i ddigwydd?**</u>

Felly, mae llawer o **gynlluniau.**

A ffyrdd i **newid pethau.**

A rhestrau o **syniadau**.



Ond beth maen nhw'n mynd i'w **wneud?**



Mae gan y cynllun lawer o bethau i'w gwneud.

Dyma **rai** ohonyn nhw.

Mae yna lawer mwy.

Mae'r Cynllun Ardal yn dweud sut y byddan nhw'n eu gwneud nhw.

**Gallwch weld y Cynllun cyfan yn wwcp.org.uk**

**Dyma rai o'r pethau y bydd y Bartneriaeth yn eu gwneud.**



- Gwneud system i wneud yn siŵr bod pawb yn cael gofal iechyd cyfartal.
- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da.
- Darparu gwasanaeth eiriolaeth i oedolion ar gyfer pob un o'r 3 sir.
- Gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant ag awtistiaeth yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth da.
- Hyfforddi staff am Ofalwyr.

- Sicrhau bod gwybodaeth a gwasanaethau yn gweithio i bobl â dementia.
- Bodloni anghenion pobl â nam ar y synhwyrau.
- Gwneud canolfannau cymunedol lleol i helpu pobl i aros yn annibynnol.
- Gwneud yn siŵr bod y cymorth yn iawn ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.
- Cael mwy o fyw â chymorth i bobl sy'n byw ag anableddau dysgu.
- Helpu pobl ag Anableddau Dysgu i wneud mwy yn y gymuned a gwneud yn siŵr eu bod yn chwarae rhan ym mhob penderfyniad am eu gofal.
- Datblygu sefydliadau newydd a arweinir gan y defnyddiwr.



**Am fwy o wybodaeth**

Cysylltwch â **Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.**

01267 228756

wwcp@carmarthenshire.gov.uk

Mae cynrychiolwyr dinasyddion ar y Bwrdd y gallwch siarad â hwy.

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

**Cynhyrchwyd gan**

Pembrokeshire People First
Centre for Independent Living
PPF
Canolfan Byw yn Annibynnol
Pembrokeshire People First

**yn defnyddio**

Made with Photo Symbols®